**Gweithredu ym mis Ionawr 2016**

**Cyngor Adnewyddu'r Economi**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod yn y nodiadau** | **Cam gweithredu** | **Cynnydd** | **Gweithredu pellach** | **Statws** |
| | **Camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2015** | | | |
| 4.34 | Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid y byddai'n sefydlu grŵp gorchwyl a fyddai'n cynnwys partïon â diddordeb er mwyn trafod cynnig TUC Cymru a rhoi cyngor i Weinidogion. Bydd y mater hwn yn cael ei ailystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. | Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fudd i'r Gymuned – cyfarfu'r Is-grŵp ar 2 Rhagfyr a chynhaliwyd cyfarfod arall ar 22 Ionawr | Swyddi Gwell yn nes at Adref yn eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 1 Chwefror 2016 hefyd. | Parhaus |
| 4.43 | Paratoi papur byr erbyn y cyfarfod nesaf ar waith a wneir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cwmnïau'n ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau mawr ac i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i elwa arnynt. | Papur i'w nodi yng nghyfarfod y Cyngor ar 1 Chwefror 2016 | | Wedi'i gwblhau |
| | **Camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2015** | | | |
| 2.3.2 | Diwygio Lles – Y Gweithgor Gweithredol i ystyried Diwygio Lles fel eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Hydref. | Papur i'w nodi yng nghyfarfod y Cyngor ar 5 Hydref 2015 | | Wedi'i gwblhau |
| 4.24 | Y Gweinidog Cyllid i ddarparu nodyn i'r Cyngor am drefniadau cyflwyno cynigion ar y cyd a'r consortia newydd a oedd wedi'u sefydlu. | Papur i'w drafod yng nghyfarfod y Cyngor ar 5 Hydref 2015 (eitem 4a ar yr agenda) | | Wedi'i gwblhau |
| 4.25 | Y Gweinidog Cyllid i ddarparu diweddariad pellach ynghylch caffael i'r Cyngor yng nghyswllt y pwerau newydd a'r cyfleoedd cysylltiedig. | Papur i'w drafod yng nghyfarfod y Cyngor ar 5 Hydref 2015 (eitem 4a ar yr agenda) | | Wedi'i gwblhau |
| 5.16 | Gwybodaeth i'w darparu i aelodau'r Cyngor am brosiectau llwyddiannus. | Gwaith ar y gweill i gasglu gwybodaeth am brosiectau | | Wedi'i gwblhau |

| | Camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2015 | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.22 | Swyddogion i drefnu sgwrs rhwng Jonathan Price ac Iestyn Davies i drafod amrywiadau is-ranbarthol yng nghyd-destun y DU a'r potensial sydd i archwilio dadansoddiad ar lefel NUTS 3 er mwyn creu darlun economaidd. | Mae trafodaeth wedi digwydd. Er bod ystod o ystadegau economaidd ar gael eisoes ar lefel NUTS 3, barnwyd bod lle i wella ymhellach yr hyn y mae ystadegau economaidd is-ranbarthol yn ymdrin ag ef. Fodd bynnag, nodwyd y byddai gwneud hynny'n arwain at gostau ychwanegol ac y byddai angen i gynigion penodol gael eu hategu gan achos cadarnhaol iawn sy'n seiliedig ar ofynion polisi. | Bydd yr ymgynghoriad sydd ar ddod ynghylch ystadegau economaidd yn rhoi cyfle i ystyried opsiynau'n systematig. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i aildrefnu fel bod modd iddo gael ei lywio gan argymhellion adolygiad Llywodraeth y DU o ystadegau economaidd. Bydd dyddiad yn cael ei bennu pan fydd yr argymhellion wedi'u cyhoeddi. | Wedi'i gwblhau |
| 6.1 | Gofynnodd Martin Mansfield a fyddai'r swyddogion perthnasol yn gallu gweithio gyda'r Gweithgor Gweithredol ar gaffael, a chytunwyd ar hynny. | Mae swyddogion wedi mynychu dau gyfarfod o'r Gweithgor Gweithredol a chafodd papur ei drafod yng nghyfarfod y Gweithgor Gweithredol ar 12 Mai. | Mae angen papur gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 1 Mehefin 2015 i'w drafod. | Wedi'i gwblhau |